Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Llun, 24 Ionawr 2022 am 3.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Downing (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C R Doyle | D W Helliwell | P K Jones |
| L R Jones | E T Kirchner | C Richards |
| K M Roberts | L V Walton | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Sian Denty | Hyrwyddwr Comisiwn y Gwirionedd am Dlodi Abertawe/Swyddog Datblygu Trechu Tlodi |
| Aled Gruffydd | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Kay Lemon | Hyrwyddwr Comisiwn y Gwirionedd am Dlodi Abertawe |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |
| Anthony Richards | Rheolwr Datblygu Strategaeth Tlodi a'I Atal |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr):

---

**33 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**34 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr 2021 fel cofnod cywir.

**35 Y diweddaraf ar Hyrwyddo'r Polisi Credyd Fforddiadwy.**

Rhoddodd Anthony Richards, Rheolwr Datblygu Strategaeth Tlodi a'i Atal, ddiweddariad llafar ynghylch yr Adroddiad Polisi Hyrwyddo Credyd Fforddiadwy. Amlinellodd fod yr adroddiad wedi'i gymeradwyo gan Aelod y Cabinet ac y byddai'n cael ei adrodd i'r Cabinet ar 17 Chwefror 2022, i'w gymeradwyo.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am yr wybodaeth ddiweddaraf a chroesawodd y cynnydd a wnaed.

**Penderfynwyd** y dylid nodi cynnwys y diweddariad.

## 36 Adennill Dyled Personol Corfforaethol.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar ar y cynnydd a wnaed o ran y polisi a hysbysodd y Pwyllgor ei fod yn aros am fân ddiweddariadau ychwanegol gan nifer bach o feysydd gwasanaeth.

Ychwanegodd y Rheolwr Datblygu Strategaeth Tlodi a'i Atal fod gwaith ymgysylltu â gwasanaethau yn parhau o ran casglu dyledion personol sydd heb eu casglu. Ychwanegodd ymhellach mai'r nod oedd adolygu'r polisi ac i feysydd gwasanaeth ei alinio â'u harferion gwaith.

Nododd y Cadeirydd y rhoddwyd awdurdod i'r Rheolwr Datblygu Strategaeth Tlodi a'i Atal yn flaenorol gan y Pwyllgor i ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch y polisi. Byddai'r broses Asesiad Effaith Integredig (AEI) yn cael ei chwblhau yn dilyn yr ymarfer ymgynghori, y disgwylid iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Chwefror 2022.

**Penderfynwyd** y dylid nodi cynnwys y diweddariad.

## 37 Comisiwn Gwirionedd Tlodi Abertawe.

Darparodd y Rheolwr Datblygu Strategaeth Tlodi a'i Atal ddiweddariad llafar i'r Pwyllgor ynghylch y cefndir a'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â Chomisiwn y Gwirionedd am Dlodi Abertawe (SPTC).

Cyflwynodd Siân Denty, Hyrwyddwr Comisiwn y Gwirionedd am Dlodi Abertawe/Swyddog Datblygu Trechu Tlodi a Kay Lemon, Hyrwyddwr Comisiwn y Gwirionedd am Dlodi Abertawe, a ddarparodd ddiweddariad manwl ynghylch Comisiwn y Gwirionedd am Dlodi Abertawe.

Roedd y manylion a drafodwyd yn cynnwys y materion allweddol/amserlen; y cyfnod datblygu; cyllid; effaith pandemig COVID; rôl hwyluswyr; cyfathrebu/cynnwys sefydliadau; ystod amrywiol o gyfranogwyr yn cymryd rhan; problemau y mae cymunedau'n eu hwynebu; tlodi a wynebir gan deuluoedd sy'n gweithio/di-waith; ceiswyr lloches/ffoaduriaid; canlyniadau i Abertawe; datblygiad themâu; a mynd yn ei flaen ag ymagwedd wybodus at broblemau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf a dywedodd y byddai adroddiad ysgrifenedig yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf a drefnwyd.

**Penderfynwyd:**-

1) Dylid nodi cynnwys yr adroddiad;
2) Darparu adroddiad ysgrifenedig yn y cyfarfod nesaf a drefnwyd.

## 38 Cynllun Gwaith 2021-2022.

Cyflwynodd y Cadeirydd Gynllun Gwaith diweddaredig ar gyfer 2021-2022.

Trafododd y Pwyllgor y Cynllun Gwaith ar gyfer gweddill y flwyddyn, gan gynnwys pynciau ychwanegol fel y cynnydd mewn costau tanwydd sydd ar fin digwydd; cyflwyno incwm sylfaenol i oresgyn tlodi; Polisi Tyfu Bwyd Cymunedol; a'r gwaith parhaus i gefnogi Comisiwn y Gwirionedd am Dlodi Abertawe. Nodwyd y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf a drefnwyd.

**Penderfynwyd:**-

1) Dylid nodi cynnwys yr adroddiad;
2) Cyflwyno adroddiadau ar Bolisi Tyfu Bwyd Cymunedol a Chomisiwn y Gwirionedd am Dlodi Abertawe yn y cyfarfod nesaf a drefnwyd.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.30 pm

**Cadeirydd**